

Lefel 4 Paratoi ar gyfer arwain a
rheoli ym maes Gofal, Chwarae,
Dysgu a Datblygiad Plant

Tasg F – Pecyn Aセス
Sampl

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Ar gyfer y dasg hon, byddwch chi'n ystyried y rôl y mae arweinyddiaeth effeithiol yn ei chwarae wrth gefnogi perfformiad tîm yn eich gweithle/lleoliad. Bydd angen i chi ystyried,

- Sut mae arweinyddiaeth effeithiol yn cefnogi'r gwaith o reoli timau
- Yr effaith y mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei chael ar weithwyr
- Rôl dirprwyo effeithiol mewn amgylchedd tîm

Yn y pecyn hwn, byddwch chi'n cael senario a bydd angen i chi ei darllen a'i hystyried. Bydd hefyd angen i chi ddarllen nifer o adroddiadau gan unigolion sy'n ymwneud â'r senario.

Ar ôl i chi ddarllen y senario a'r adroddiadau, dylech ateb y cwestiynau sydd wedi'u darparu.

Bydd gennych chi hyd at **60** munud i **baratoi** eich ymatebion i'r cwestiynau, ac yna bydd gennych chi hyd at **30** munud i roi'r ymatebion hyn **ar lafar** i'ch aseswr.

Cwestiynau

Byddwch chi'n darparu ymateb i bob un o'r cwestiynau canlynol yn seiliedig ar y senario hon.

- Pa ymddygiadau arwain a gwerthoedd craidd a allai eich helpu i wella cymhelliant yn y tîm hwn; ac ennyn ei ymddiriedaeth a'i barch?
- Sut gallai eich gwybodaeth am ddamcaniaethau priodol (e.e. deallusrwydd emosiynol, rheoli perthnasoedd) eich helpu i ddechrau meithrin perthnasoedd mwy cadarnhaol â'r tîm hwn ac o fewn iddo?
- Pam ei bod yn bwysig cael dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a'r iaith Gymraeg yn y senario hon?
- Pa broses y byddech chi'n ei defnyddio er mwyn sicrhau bod y modd mae tasgau'n cael eu dirprwyo yn dryloyw ac yn glir o fewn y tîm?

Senario

"Mae lleoliad gofal plant wedi cyflogi rheolwr newydd yn ddiweddar. Gwnaeth y rheolwr blaenorol adael y sefydliad yn gyflym iawn, ac nid oedd unrhyw gyfnod trosglwyddo gyda'r rheolwr newydd, a oedd yn benodiad allanol. Roedd nifer o broblemau ynghylch gwrthdaro a morâl yn y tîm nad oedden nhw byth wedi cael eu datrys yn iawn.

Mae'r rheolwr newydd wedi galw cyfarfod tîm cyntaf â'r tîm."



BRYONY – Rheolwr a benodwyd yn ddiweddar

“Rwy’n newydd yn y swydd, a chadeiriais ein cyfarfod tîm cyntaf heddiw. Trychineb llwyr! Prin fod unrhyw un wedi gwneud cyswllt llygaid â mi; wrth i mi feddwl am y peth, prin y gwnaeth unrhyw un gyswllt llygaid â’i gilydd chwaith. Roedd yn ddistawrwydd llwyr – doedd neb yn mân siarad, a dydw i ddim yn meddwl fy mod i wedi gweld gwên! Does gen i ddim syniad beth rwyf wedi cerdded i mewn iddo. Ceisiais fod o gymorth drwy ddarparu gwybodaeth, ond roedd pobl yn edrych ar y bwrdd neu’r wal. Gofynnais i’r dirprwy a fyddai’n gallu cyflawni tasg ar fy rhan a gwelais rhai yn rhoio eu llygaid. Pan awgrymais y byddai’n braf dod at ein gilydd fel tîm, roedd yr awyrgylch yn lletchwith iawn. Ni ddylwn i fod wedi trafferthu. Mae’n amlwg i mi nad yw hwn yn dîm, a doedd dim cymhelliant nac ymgysylltiad yma.”



CERI – Gweithiwr yn y tîm

"Roeddwn i'n teimlo trueni dros ein rheolwr newydd mewn gwirionedd. Does ganddi ddim syniad o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd. Gwnaeth ein rheolwr blaenorol adael ar delerau gwael. Roedd gan nifer o aelodau'r tîm berthynas anodd â hi ac effeithiodd hyn ar y perthnasoedd sydd gennym o fewn y tîm. Roedd llawer o wrthdaro yn y tîm ac mae'r sefyllfa yr un peth heddiw. Roedd rhai ohonom yn teimlo bod gan ein rheolwr blaenorol ffefrynnau. Roedd hi'n bendant yn arfer rhoi'r tasgau gorau i'w hoff bobl! Petai rhywun yn awgrymu ffyrdd eraill o weithio, bydden nhw'n cael eu gwrthod ar unwaith. Er bod y lleoliad yn un dwyieithog, ni wnaeth ddangos llawer o anogaeth na chefnogaeth i'r Gymraeg." Roedd rhai ohonom yn ei hofni. Gwnes i hyd yn oed glywed rhai pobl yn dweud eu bod yn teimlo bod rhai elfennau o'i hymddygiad yn wahaniaethol.